

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
3 Gorffennaf 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNO

Cynghorwyr Sioned Williams, Dafydd Iwan, Chris Hughes, Geraint R. Jones, Emyr Williams, Gwyneth Thomas, Ifor D. Williams, Rhys Pugh
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

YMDDIHEURIADAU

Edd Huws, Ian Jones

DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Erddyn Davies a'r Cynghorydd Chris Hughes fuddiant yn eitem 5.2, costau torri gwair Clwb Pêl-droed Bontnewydd, ond nid oedd y buddiannau yn rhai oedd yn rhagfarnu.

CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyflwr y ffordd Llanfaglan i Fontnewydd ac yn Lôn Groes

Bu peiriannwyr Gwynedd yn edrych ar gyflwr y ffyrdd yn ardal Llanfaglan a Lôn Groes yn ddiweddar. Nodwyd nad oedd diffygion dosbarth 1 ar y ddwy lôn, ond fod ardaloedd ble mae'r ffyrdd yn cracio ac yn datblygu rhychau fydd angen sylw yn y tymor hir. Mae gwaith clytio dros dro wedi ei wneud.

O ran problem y lôn yn cwmpo ger Lodge Llanfaglan, yna mae Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r fan hyn yn benodol, ac yn bwriadu gwneud gwaith i atgyweirio'r diffyg yma'n fuan.

Porth Eglwys Sant Baglan

Cafodd y Clerc enw dau grefftwr gan y crefftwr y cysylltwyd ag ef yn gyntaf i holi am bris i wneud y gwaith atgyweirio. Y Clerc i gysylltu efo'r rhain i ofyn am bris.

Cylchdro Glan Beuno

Bu i'r Cynghorydd Geraint R. Jones gael cyfarfod safle efo'r Asiantaeth Priffyrdd. Trafodwyd nifer o bosibiliadau, ond heb gymryd camau eithafol, megis pryniant gorfodol, doedd yr Asiantaeth Priffyrdd ddim o'r farn fod yna unrhyw ateb amlwg.

Cytunwyd fod y Cynghorydd Geraint R. Jones yn llunio ymateb i'w ddanfon at yr Asiantaeth Priffyrdd.

Maes Chwarae Llwyn Beuno

Mae'r Cynghorydd Christopher Hughes a'r Cynghorydd Dafydd Iwan i gyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd ar y safle'n fuan, er mwyn trafod cyflwr yr offer, ac oblygiadau posibl trosglwyddo perchnogaeth i'r Cyngor Cymuned.

Defnyddio Maes Parcio CPD Bontnewydd

Nid oes gwrthwynebiad gan Gyngor Gwynedd i faes parcio'r Clwb Pêl-droed gael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr Coed y Sipsiwn. Maent yn fodlon o safbwynt cynllunio a diogelwch ffyrdd.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Coed y Sipsiwn, gan gynnig defnydd o'r maes parcio tan fis Medi, ar adegau pan fo maes parcio Coed y Sipsiwn yn llawn.

Holiadur angen am dai

Trafodwyd holiadur a gylchredwyd gan y Cynghorydd Dafydd Iwan, a'r bwriad i'w ddefnyddio i asesu'r angen am dai yn lleol, cyn ymateb i Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd fod angen symleiddio ac addasu'r holiadur, fel nad oedd yn gofyn am gymaint o fanylion personol, gan y byddai hynny'n debygol o olygu gwell ymateb.

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Dafydd Iwan yn addasu'r holiadur a'i ddanfon ar e-bost gan holi hefyd pa lwyddiant yr oedd cynghorau cymuned eraill wedi eu cael efo eu holiadur hwy.

Gwreiddyn coeden pont reilffordd Bontnewydd

Mae'r Clerc wedi cysylltu efo Gyngor Gwynedd, a rhoi gwybod iddynt am ddifrod posibl i'r bont reilffordd oherwydd y gwreiddyn coeden sy'n tyfu ohoni.

MATERION ARIANNOL

Cytunwyd i dalu costau torri gwair Clwb Pêl-droed Bontnewydd 2013/14 £825

GOHEBIAETH

Cafwyd gohebiaeth gan y canlynol yn diolch am y rhoddion ariannol:

Ysgol Gynradd Bontnewydd
Canolfan Bro Llanwnda
Lleu
Eisteddfod yr Urdd Sir Feirionnydd 2014
Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2014Urdd Gobaith Cymru
Eisteddfod Ieuencid Bontnewydd
Cymdeithas Undebol Bontnewydd

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth.

MATERION ERAILL

Hysbysfyrddau Bontnewydd a Llanfaglan

Torrwyd gwydr hysbysfwrdd Bontnewydd. Cafodd y Clerc brisiau i osod perspecs a gwydr wedi ei lamneiddio. Penderfynwyd gosod gwydr wedi ei lamneiddio gan nad yw'n torri'n ddarnau peryglus nac yn dirwyo yn yr haul.

Mae problemau'n parhau efo clo'r ddau hysbysfwrdd ac mae'r Clerc wedi ysgrifennu at North Wales Fencing er mwyn ceisio datrysiaid i'r broblem.

Gordyfiant a thorri gwair

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Hughes at ordyfiant ar y llwybr sy'n rhedeg ger Parc Coed y Sipsiwn. Bydd yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn tynnu eu sylw at y broblem.

Cyffordd Lôn Groes a Mynedfa Plas y Bryn

Mymnegwyd pryder nad yw ceir sy'n teithio o fynedfa Plas y Bryn yn aros wrth ymuno efo Lôn Groes. Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn tynnu eu sylw at y broblem ac awgrymu fod llinell wen yn cael ei gosod yn y gobaith y byddai hynny'n gwella'r broblem.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 4 Medi 2014, am 7yh.